

## Datblygu Gweledigaeth Genedlaethol a Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Profedigaeth yng Nghymru

Canfu astudiaeth ddiweddar gan Ganolfan Ymchwil Marie Curie ym Mhrifysgol Caerdydd, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, mai'r her fwyaf sy'n wynebu darparwyr cymorth mewn profedigaeth oedd mynediad at gyllid. Yn ail agos roedd anallu i ateb y galw, ac i ddarparu cymorth arbenigol.

Cafodd amseroedd aros hir, a loteri cod post rhwng y gogledd

a'r de, eu nodi hefyd fel sialensiau mawr i'r rhai sy'n cyrchu at wasanaethau profedigaeth.<sup>6</sup>

Mae pobl o bob oedran yn elwa o gymorth cyn ac ôl brofedigaeth. Mae'r effaith gadarnhaol ar eu bywydau yn sylweddol.<sup>7</sup>

**Rydym eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i weledigaeth a strategaeth ar gyfer gwasanaethau profedigaeth sy'n darparu un ffordd gyson o weithredu ar draws Cymru gyda digon o gyllid i sicrhau mynediad prydlon at gymorth pan fydd ei angen fwyaf.**

1. Marie Curie. (2013). *Death and Dying – Understanding the data*
2. Marie Curie. (2015). *Triggers for palliative care Improving access to care for people with diseases other than cancer*
3. Dixon, J., King, D., Matosevic, T., Clark, M., and Knapp, M., (2015). 'Equity in the Provision of Palliative Care in the UK: Review of Evidence', *Personal Social Services Research Unit London School of Economics and Political Science*
4. Marie Curie (2015) "Hiding who I am" The reality of end of life care for LGBT people
5. Y Comisiwn Ansawdd Gofal. (2016). *People from Black and minority ethnic communities a different ending: addressing inequalities in end of life care*
6. Marie Curie, Bereavement in Wales, 2020
7. ibid



## Rhagoriaeth o ran Gofal Diwedd Oes yng Nghymru

# Blaenoriaethau Maniffesto 2021 Marie Curie Cymru

Cyn yr etholiadau i Senedd Cymru yn 2021, cred Marie Curie y dylai pob plaid wleidyddol ac ymgeisydd ymrwymo i'r blaenoriaethau allweddol canlynol er mwyn helpu i wella bywydau'r rhai sy'n byw gyda salwch terfynol, a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

## Disgwyliadau ar Ddiwedd Oes

Ers sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, bu gan bobl ddisgwyliadau o ran y gofal a'r cymorth y dylent eu cael gydol eu bywyd. Dros amser, seiliwyd hyn ar bolisi, targedau ac adnoddau wedi'u targedu. Mae targedau amseroedd aros a gofal sy'n canolbwyntio ar y person yn enghreifftiau amlwg o atgyfnerthu'r disgwyliadau hyn.

Ond wrth ystyried yr adeg honno yn ein bywydau pan ydyn ni ar ein mwyaf bregus, ar ddiwedd ein hoes, yn rhy aml nid yw pobl yn gwybod beth y dylen nhw ei ddisgwyl. O ganlyniad, mae'n anodd iddynt gael sgwrsiau ar sail gwybodaeth gyda'r rhai sy'n eu cefnogi ac mae hynny, yn ei dro, yn ei gwneud hi'n anodd iddynt wneud dewisiadau o ran y gofal maen nhw am ei gael, ble maen nhw am ei gael a chan bwy maen nhw am ei gael.



Ben Gold/Marie Curie

Dywed dros 70% o bobl yr hoffen nhw farw gartref, ond pan ddaw'r amser mae tua 50% o bobl yn dal i farw yn yr ysbyty yng Nghymru.<sup>1</sup>

Mae syniadau newydd mewn gwasanaethau iechyd wedi llwyr newid y profiad o eni plentyn a'r disgwyliadau sy'n mynd law yn llaw â hynny - o ran lleoliad, yr amgylchedd ac arferion clinigol. Mae angen yr un newid radical mewn meddylfryd o ran gofal a chefnogaeth diwedd oes.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gychwyn ar raglen sy'n cynnwys y canlynol:

- Cael gwybod gan bobl o bob cefndir, â phob math o nodweddion, beth maen nhw'n ei ddisgwyl ar ddiwedd eu hoes
- Cymryd y disgwyliadau hyn a'u defnyddio i osod safonau gwasanaeth gofynnol, o safbwynt mynediad ac ansawdd
- Gweithio ar draws holl swyddogaethau llywodraeth i fynd i'r afael â disgwyliadau sydd y tu hwnt i'r hyn y gall y sector iechyd a gofal cymdeithasol ei ddiwallu

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ganfod beth yw disgwyliadau pobl ar ddiwedd eu hoes. Wedyn rhaid iddi gymryd y camau a darparu'r modd i wireddu'r disgwyliadau hyn o fewn oes y senedd nesaf.**

## **Sicrhau cyfle cyfartal a mynediad at ofal lliniarol, heb ystyried cefndir, hil, rhyw a lleoliad**

O'r 34,000 o bobl sy'n marw yng Nghymru bob blwyddyn, gwyddom y byddai o leiaf 75% yn elwa o ryw fath o ofal lliniarol ar ddiwedd eu hoes.<sup>2</sup> Ond yn anffodus, am lawer o resymau, ni fydd un o bob pedwar person yn gallu manteisio ar ofal lliniarol.<sup>3</sup> Mae hynny'n golygu nad yw dros 6,000 o bobl y flwyddyn yn cael y gofal y mae arnynt angen dirfawr amdano ac y maent yn ei haeddu.

Rydym eisoes yn gwybod fod llawer o bobl yn wynebu rhwystrau oherwydd pwy ydyn nhw neu ble maen nhw, ac mae hyn hyd yn oed yn fwy gwir i'r rhai sydd â haenau o hunaniaeth sy'n plethu drwy'i gilydd. Tynnodd adroddiad Marie Curie, Hiding Who I Am,

sylw at rwystrau rhag cael gofal i bobl LGBT+ - mae'r rheini'n cynnwys rhagdybiaethau ynglŷn â hunaniaeth a strwythur teuluoedd, disgwyl gwahaniaethu a diffyg dealltwriaeth.<sup>4</sup>

Rydym yn gwybod hefyd fod materion crefyddol, diwylliannol, iaith, economaidd-gymdeithasol ac ethnigrwydd i gyd wedi'u nodi fel rhwystrau rhag cyrchu at ofal safonol pan a ble mae ei angen.<sup>5</sup>

Rhaid i ni sicrhau fod gofal a chymorth yng Nghymru yn hygyrch i bawb sy'n byw yng Nghymru, waeth beth fo'u hunaniaeth a'u cefndir.

**Rydym eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i sicrhau y bydd gofal lliniarol o fewn cyrraedd pawb y mae arno ei angen erbyn diwedd y senedd nesaf.**